# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ffordd Llys Nant, Prestatyn, Dydd Iau, 27 Mehefin 2013 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr William Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Pat Jones a Cefyn Williams (Cadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW), Swyddog Trwyddedu (JT), Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (TWE), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (HB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Barry Mellor, Win Mullen-James, Peter Owen ac Arwel Roberts

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o gysylltiad personol neu ragfarnol.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater a ganlyn ar gyfer trafodaeth gan fod angen sylw brys iddo –

Adolygu Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – Gyrrwr Rhif 043844

Cytunwyd ystyried y mater ar ôl ystyried y prif fater ar y rhaglen.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem nesaf dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai'n debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 ac 14, Rhan 4, Atodlen 12A., y Ddeddf.*

## 4 DIDDYMU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 047224

Cylchredwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn y cyfarfod yn argymell y dylid diddymu'r drwydded i yrru

cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat a roddwyd i Yrrwr Rhif 047224 ar unwaith er lles diogelwch y cyhoedd. Cyflwynwyd ffeithiau'r achos fel a ganlyn –

(i) derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â'r ffaith fod Gyrrwr Rhif 047224 wedi'i arestio yn dilyn cyhuddiadau yn ymwneud â sylweddau dan reolaeth a chamymddwyn rhywiol difrifol yn ymwneud â pherson ifanc;

(ii) derbyniwyd manylion yn ddiweddarach yn ymwneud â'r cyhuddiadau gan Heddlu Gogledd Cymru a oedd yn cynnal ymchwiliad i'r honiadau, ac

(iii) Roedd Gyrrwr Rhif 047224 wedi'i wahodd i ddod i gyfarfod i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded ac i ateb cwestiynau aelodau ar hynny.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (HB) yr adroddiad a chadarnhaodd nad oedd y Gyrrwr yn bresennol er gwaethaf derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol. Mewn ymateb i gwestiynau, clywodd aelodau na ellid datgelu unrhyw fanylion pellach yn sgil ymchwiliad yr Heddlu i'r cyhuddiadau, a oedd yn parhau. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd safbwynt cyfreithiol ar y sefyllfa gan gynnwys y sail dros wahardd a diddymu'r drwydded. Wedi trafodaeth –

***PENDERFYNWYD*** *y dylid diddymu'r Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat a roddwyd i'r Gyrrwr Rhif 047224 ar sail diogelwch y cyhoedd.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i ffeithiau'r achos a mynegwyd pryder yn ymwneud a natur ddifrifol y cyhuddiadau a'r ffaith fod yr Heddlu yn bwrw ymlaen â'u hymchwiliad. Er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd, penderfynodd yr aelodau ddiddymu'r drwydded ar unwaith.

**5 ADOLYGU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – GYRRWR RHIF 043844**

[Credwyd fod yr eitem hon yn fater brys, a rhoddwyd rhybudd o hynny gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd yn y cyfarfod) ar –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 043844 i ddal trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) roedd y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2012 wedi gwahardd Gyrrwr Rhif 043844 ar sail diogelwch y cyhoedd wedi ei groniad o bwyntiau cosb, tri ohonynt yn ymwneud â defnyddio ffôn symudol wrth yrru [caniatawyd y Gyrrwr i gadw ei drwydded DVLA gan Ynadon Prestatyn a oedd wedi derbyn y byddai gwaharddiad wedi achosi caledi eithriadol];

(iii) apeliodd y Gyrrwr yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu ac ar 19 Rhagfyr 2012 gwrthododd yr Ynadol yr Apêl ond cyfeiriwyd y mater yn ôl at y Pwyllgor Trwyddedu ar y cyfle cyntaf posibl er mwyn caniatáu iddynt adolygu cyfnod y gwaharddiad;

(iv) roedd y Pwyllgor Trwyddedu arbennig a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2012 wedi codi'r gwaharddiad a osodwyd ar y Gyrrwr ac wedi cyflwyno rhybudd o ran ei ymddygiad yn y dyfodol;

(v) derbyniwyd llythyr ar 25 Mehefin 2013 gan Yrrwr Rhif 043844 yn nodi ei fod wedi'i gael yn euog ar 13 Mehefin 2013 o oryrru gan Ynadon Llandudno a dan y drefn o gronni pwyntiau roedd wedi'i wahardd rhag gyrru am gyfnod o chwe mis, ac

(vi) roedd Gyrrwr Rhif 043844 wedi'i wahodd i ddod i'r cyfarfod i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded ac ateb cwestiynau aelodau ar hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod a chyflwynwyd pawb oedd yn bresennol iddo. Oherwydd natur brys yr adolygiad, nid oedd yr adroddiad pwyllgor wedi bod ar gael ymlaen llaw ac wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod.

Anerchodd Gyrrwr Rhif 043884 y pwyllgor i gefnogi ei achos, gan egluro amgylchiadau'r drosedd yrru a oedd wedi arwain at ei waharddiad. Clywyd fod y drosedd wedi'i chyflawni ym mis Rhagfyr 2012 ond roedd wedi cymryd tan fis Mehefin 2013 i'r Ynadon glywed yr achos. Dywedodd y Gyrrwr ei fod ond wedi'i gael yn euog o oryrru ar un achlysur arall yn 2010 a'i fod yn arfer gyrru o fewn y cyfyngiad cyflymder. Unwaith y byddai ei Drwydded DVLA yn cael ei hadfer ym mis Rhagfyr 2013 ni fyddai unrhyw euogfarnau arni. Dywedodd hefyd fod cyfeiriad yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd ynglŷn â'r euogfarn at y drosedd fel mân drosedd dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd. Roedd y gyrrwr yn awyddus i roi gwybod i'r pwyllgor mai bod yn yrrwr tacsi oedd ei fywoliaeth a'i fod mwynhau hynny ac yn ei chymryd o ddifrif. Er ei fod yn derbyn na allai gyflawni ei ddyletswyddau fel gyrrwr trwyddedig ar hyn o bryd, roedd yn gobeithio parhau yn y proffesiwn pan gaiff ei Drwydded DVLA ei hadfer.

Manteisiodd Aelodau ar y cyfle i gwestiynu'r Gyrrwr ynglŷn â'i euogfarn am oryrru a gofynnwyd iddo pam na wnaeth ddatgelu am ei ymddangosiad yn y llys pan ddaethpwyd â mater ei drwydded ger bron y pwyllgor ar gyfer yr adolygiad blaenorol. Ymatebodd y Gyrrwr gan ddweud nad oedd wedi'i gael yn euog o unrhyw drosedd ar y pryd ac nad oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Rhagfyr 2012. Eglurodd amgylchiadau'r cyfeiriad at ddefnydd priodol o gyflymder yn yr Adroddiad Asesu Gyrrwr a gynhyrchwyd ar ôl cwblhau'r Cwrs Ymwybyddiaeth Gyrru. O safbwynt euogfarnau moduro hanesyddol, cadarnhaodd y Gyrrwr ddwy drosedd flaenorol a'r amgylchiadau ym mhob un ohonynt.

Yn ei ddatganiad terfynol gofynnodd y Gyrrwr am drugaredd gan nodi ei fod wedi dysgu o'i droseddau. Rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor na fyddai'n dod ger eu bron eto pe baent yn caniatáu iddo gadw ei drwydded.

Torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac ar ôl trafodaethau –

***PENDERFYNWYD** y dylid diddymu'r Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hanci a Cherbydau Hurio Preifat a roddwyd i'r Gyrrwr Rhif 043884 ar sail diogelwch y cyhoedd.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Wrth benderfynu, rhoddodd aelodau ystyriaeth i'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd a datganiadau'r Gyrrwr i gefnogi ei achos. Yn ystod y trafodaethau, mynegwyd pryder fod (1) y Gyrrwr eisoes wedi bod ger bron y pwyllgor a'i fod wedi derbyn rhybudd ynglŷn â'i ymddygiad; (2) er yn dechnegol nad oedd unrhyw ofyniad cyfreithiol, nid oedd y Gyrrwr wedi datgelu ei fod yn wynebu achos llys am oryrru ar yr achlysur blaenorol pan fu ger bron y pwyllgor a gellid bod wedi ystyried hynny ar y pryd, a (3) y gyfres o droseddau traffig ffordd a natur y troseddau hynny a oedd wedi arwain at i'r Gyrrwr gael ei wahardd am chwe mis. Yn sgil y pryderon hynny, a'r ffaith na allai'r Gyrrwr gyflawni ei ddyletswyddau fel gyrrwr trwyddedig yn ystod cyfnod y gwaharddiad, nid oedd y pwyllgor yn ei ystyried yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. O gofio mai prif ystyriaeth y pwyllgor oedd diogelwch y cyhoedd ac yn sgil y pryderon a fynegwyd, penderfynwyd y dylid diddymu'r drwydded ar unwaith ar y sail honno.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau dros y penderfyniad eu cyfleu i'r Gyrrwr a rhoddwyd gwybod iddo fod ganddo hawl i apelio. Esboniwyd iddo nad oedd diddymu'r drwydded yn ei atal rhag ymgeisio am drwydded ar ôl cwblhau ei waharddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 p.m.